**HYSBYSEB**
**TEITL Y RÔL** ***Cynorthwyydd Cefnogi Dysgu***

## TESTUN YR HYSBYSEB:

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn chwilio am unigolyn dawnus ac ymroddgar o ran cefnogi dysgu plant. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn partneriaeth gyda staff dynamig ac uchelgeisiol, y gymuned a'r corff llywodraethol er mwyn sicrhau canlyniadau addysg rhagorol ar gyfer disgyblion Ysgol y Fenni.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno â staff creadigol a blaengar. Dyma swydd diddorol, ond hynod werth chweil ac rydym yn chwilio am y person iawn i ymuno â ni fel rhan annatod o'n tîm cyfeillgar, ymroddedig ac ysbrydoledig. Bydd y pennaeth, staff a'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth heb ei hail i'r ymgeisydd a fydd yn dangos ymroddiad o'r safon uchaf i gydweithio'n frwdfrydig gyda nhw, i gynnig y gorau posib i holl blant yr ysgol. Mae'r gallu i gyfarthebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn angenrheidiol.

**Advertisment Text:**
The headteacher and the governing body are looking for a talented and dedicated individual in terms of supporting children's learning. The successful candidate will work in partnership with dynamic and ambitious staff, the community and the governing body in order to ensure excellent educational results for Ysgol y Fenni pupils.

This is an exciting opportunity to join a creative and progressive staff. This is an interesting, but extremely rewarding job and we are looking for the right person to join us as an integral part of our friendly, dedicated and inspiring team. The headteacher, staff and the governing body will provide unparalleled support to the applicant who will show dedication of the highest standard to collaborate enthusiastically with them and to offer the best possible for all the school's children. The ability to communicate through the medium of Welsh is necessary.

**RHIF ADNABOD Y SWYDD:** **L23171018**

**LLEOLIAD:** Ysgol Gymraeg Y Fenni

**GRADD:** SCP Band Cyflog Staff Cymorth 9-13
£26,409 - £28,163 y flwyddyn
Amser tymor yn unig (Yn weithredol o 01.04.2018 bydd y cyfrifiad hwn yn ymgorffori hawl pro rata i wyliau banc a gwyliau blynyddol).

**PATRWM GWAITH:** A fyddech gystal â nodi'r patrwm gwaith a ddisgwylir yn y rôl, h.y. llawn amser : Llawn Amser
8.30yb – 3.30yp

**ORIAU:** 32.5 awr yr Wythnos 39 wythnos y flwyddyn

**DROS DRO:** Cytundeb blwyddyn i ddechrau

**GWIRIAD DBS:** Angenrheidiol

**DYDDIAD CAU:** 12yh ar 22.11.2024

**Gwybodaeth Ychwanegol**
**A fyddech gystal â nodi na allwn dderbyn CV**

**I wneud cais am y swydd hon llenwch ffurflen gais drwy:**
**https://www.monmouthshire.gov.uk/jobs-employment/**

**neu**
**https://www.eteach.com/jobs-in-monmouthshire-schools**

Gellid cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg, ac ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn y Saesneg.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi ymrwymo i ddiogelu lles plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl i bob gweithiwr a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn.

Mae pob swydd yn agored i'w rhannu oni nodir yn wahanol.

Mae Cyngor Sir Fynwy :-
- yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal ac mae'n croesawu ceisiadau o bob adran o'r gymuned.
- yn gefnogwr anabledd hyderus, ymroddedig .
- yn gyflogwr cyfeillgar i'r Lluoedd Arfog .
- yn ymwybodol o Awtistiaeth ac yn ymroddedig i symud unrhyw rwystrau i gyflogaeth
- yn ymrwymedig i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael ein gofal i gael mynediad i gyfleoedd newydd a magu profiad.

- **Beth arall sydd angen i chi ei wybod…..Ein Gwerthoedd:**
- Ategir ein pwrpas gan synnwyr clir o bwy ydym ni fel sefydliad. Disgwyliwn i bobl sy'n gweithio gyda ni rannu set o werthoedd cryf a disgwyliwn fod y rhain yn amlwg yn y ffyrdd yr ydym yn gweithio ac yn ymgysylltu â'n cymunedau.
- Gwaith tîm: Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau o'r syniadau, a'r adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n effeithio'n fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.
- Tryloywder: Rydym yn agored ac yn onest. Caiff pobl y cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig.
- Hyblygrwydd : Rydym yn hyblyg, gan ein galluogi i ddarparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn golygu ymrwymiad diffuant i weithio gyda phawb i gofleidio ffyrdd newydd o weithio.
- Tegwch: Rydym yn darparu cyfleoedd i bobl a chymunedau ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.
- Caredigrwydd: Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb byddwn yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.
- Bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy i gyflawni'r rhain.

# DISGRIFIAD SWYDD

**TEITL Y RÔL:** ***Cynorthwyydd Cefnogi Dysgu***

Cytundeb blwyddyn i ddechrau

**RHIF ADNABOD Y SWYDD: L23171018**

**LLEOLIAD:** Ysgol Gymraeg Y Fenni

**GRADD:** SCP Band Cyflog Staff Cymorth 9-13
£26,409 - £28,163 y flwyddyn
Amser tymor yn unig (Yn weithredol o 01.04.2018 bydd y cyfrifiad hwn yn ymgorffori hawl pro rata i wyliau banc a gwyliau blynyddol).

**ORIAU:** **32.5 awr** Yr Wythnos 39 wythnos y flwyddyn

**PATRWM GWAITH**: A fyddech gystal â nodi'r patrwm gwaith a ddisgwylir yn y rôl, h.y. llawn amser :Llawn Amser
8.30yb – 3.30yp

**LLEOLIAD:** Ysgol Gymraeg Y Fenni

**GWIRIAD GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS):**
Mae penodiad i'r swydd hon wedi'i eithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac yn amodol ar y gwiriad DBS canlynol:
Gwiriad Manylach gyda Phlant o'r Rhestr Waharddedig

**YN ATEBOL I:** Pennaeth yr ysgol

**ASESIAD IAITH GYMRAEG:**
Mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol;

**DIOGELU:**
Mae Diogelu Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Ysgol a'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Chi sy'n gyfrifol am chwarae eich rhan mewn lles, diogelwch ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Bydd gennych gyfrifoldeb i gymryd rhan mewn hyfforddiant i'r lefel briodol o ddiogelu a bydd gennych ddyletswydd i gyflawni eich cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

**Ein Pwrpas:-**

- Brwdfrydedd i gefnogi addysgu rhagorol yn yr ystafell ddosbarth, ymrwymiad i addysg o safon uchel;
- Disgwyliadau uchel o ran cyrhaeddiad ac ymddygiad disgyblion
- Cefnogi plant gydag anghenion addysgu ychwanegol
- Trefn a chyfathrebu rhagorol
- Perthnasau ardderchog â'r disgyblion
- Pawb yn gweithio ar y cyd gyda'r pennaeth, y llywodraethwyr, y rhieni a'r gymuned ehangach yn effeithiol

**Pwrpas y Rôl hon:-**

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn weithiwr proffesiynol profiadol, ac yn meddu ar:

- Gweithio o dan gyfarwyddyd athrawon ac aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli ac o fewn system goruchwyliaeth yr ysgol
- Rhoi cefnogaeth i unigolion neu grŵp o ddisgyblion er mwyn hyrwyddo mynediad i ddysgu iddynt
- Cynorthwyo'r athro/awes yn nhrefniant dydd i ddydd y disgyblion yn y dosbarth a'r dosbarth tu allan

**Disgwyliadau a Chanlyniadau'r Rôl hon:-**

- Cefnogaeth i ddisgyblion
- Modeli iaith gywir a safonol yn y Gymraeg.
- Goruchwylio a rhoi cefnogaeth i ddisgyblion gan gynnwys rhai sydd ag anghenion arbennig, gan sicrhau eu diogelwch a mynediad i weithgareddau dysgu.
- Cynorthwyo gyda dysgu a datblygiad holl ddisgyblion y dosbarth gan gynnwys gweithredu Cynlluniau Addysgiadol Unigol a Chynlluniau Ymddygiad Unigol y disgyblion lle'n briodol.
- Hybu cynhwysiad a chynnydd pob disgybl yn y dosbarth.

- Annog y disgyblion i gydweithio a chymysgu ag eraill a chynorthwyo gyda gweithgareddau.
- Gosod disgwyliadau heriol.
- Annog y plant i fod annibynnol a datblygu eu hunan-hyder.
- Rhoi adborth i ddisgyblion am eu gwaith a'u hymddygiad. Cydnabod a gwobrwyo eu llwyddiannau
- Gweithio o dan gyfarwyddyd yr athro/awes i greu awyrgylch dysgu pwrpasol, trefnus a chefnogol
- Trafod gyda'r athro/awes wrth gynllunio yn y tymor byr ar gyfer grwpiau/unigolion/dosbarth cyfan
- Adrodd yn ôl yn rheolaidd ar gynnydd a chyrhaeddiad plant gan dynnu sylw at unrhyw anhawster neu broblem
- Monitro a gwerthuso ymatebion y disgyblion i weithgareddau dysgu drwy wneud arsylwadau, cadw record ac adrodd nôl i'r athrawes
- Yn delio gyda thasgiau clerigol a gweinyddol y dosbarth e.e llungopio, casglu arian, dosbarthu gwaith / llythyron, ffeilio
- Hybu ymddygiad bositif ac agweddau positif at ddysgu
- Gweithredu'r gweithgareddau dysgu a gytunwyd gyda'r athro/awes.
- Gweithredu rhaglenni dysgu sydd ynghlwm â lles, strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh
- Paratoi, trefnu a defnyddio yr offer angenrheidiol ar gyfer y wers a chynorthwyo'r disgyblion i'w defnyddio ; eu casglu a'u cadw ar ôl y wers
- Cefnogi'r defnydd o TGCh yn y gweithgareddau dysgu a datblygu hyder ac annibyniaeth y disgyblion yn hyn
- Trafod materion mewn ffyrdd sensitif a phroffesiynol gyda staff yr ysgol
- Cyfrannu at gyfarfodydd rhieni ac adolygiad blynyddol (lle bo angen)
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol er mwyn datblygu Cwricwlwm 2022 ar draws yr ysgol
- Meddu ar ymwybyddiaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau yr ysgol yn ymwneud â chynhwysedd, Gofal Plant, Iechyd a Diogelwch, Cyfrinachedd a Gwarchod Data, gan roi gwybod am unrhyw gonsyrn i'r person cymwys

- Cymryd gofalaeth am y dosbarth o bryd i’w gilydd pan nad oes unrhyw drefniant arall yn bosib
- Cyfrannu at ethos a gweithgareddau yr ysgol, ac i fod yn ymwybodol o anghenion y Cwricwlwm
- Cefnogi gwaith asiantaethau allanol er mwyn gwella cynnydd dysgyblion.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant yn ôl y galw.
- Mynychu cyfarfodydd perthnasol
- Goruchwylio disgyblion tu allan i’r dosbarth gan gynnwys cyn ac ar ôl amserau ysgol ac amser cinio
- Goruchwylio disgyblion ar ymweliadau a gwibdeithiau tu allan i’r ysgol

**Dyma’r hyn y gallwn ei ddarparu ar eich cyfer:-**

- Y cyfle i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, datblygu sgiliau iaith a datblygu sgiliau proffesiynol ac addysgeg

**Beth arall sydd angen i chi ei wybod…..Ein Gwerthoedd:**
Ategir ein pwrpas gan synnwyr clir o bwy ydym ni fel sefydliad. Disgwyliwn i bobl sy'n gweithio gyda ni rannu set o werthoedd cryf a disgwyliwn fod y rhain yn amlwg yn y ffyrdd yr ydym yn gweithio ac yn ymgysylltu â'n cymunedau.

Gwaith tîm: Byddwn yn gweithio gyda chi a’n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau o’r syniadau, a’r adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy’n effeithio’n fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a’n lleoedd.

Tryloywder: Rydym yn agored ac yn onest. Caiff pobl y cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sydd yn bwysig.

Hyblygrwydd : Rydym yn hyblyg, gan ein galluogi i ddarparu’r gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn golygu ymrwymiad diffuant i weithio gyda phawb i gofleidio ffyrdd newydd o weithio.

Tegwch: Rydym yn darparu cyfleoedd i bobl a chymunedau ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.

Caredigrwydd: Byddwn yn dangos Caredigrwydd i bawb byddwn yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a’r cysylltiadau sydd gennym â’n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.

Bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy i gyflawni’r rhain.

**Yn ychwanegol:**
Mae’n holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffordd sy’n gyson â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

# Manyleb Person

## Sut fyddwn ni'n gwybod ai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus byddwch wedi dangos eich bod wedi:-

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| CYMHWYSTER | Wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg ar hyn o bryd. | Cymwysterau ychwanegol a/neu'r astudiaethau proffesiynol sy'n berthnasol i'r swydd |
| GWYBODAETH A PHROFIAD | Tystiolaeth o brofiad perthnasol llwyddiannus o gefnogi dysgwyr<br><br>Dealltwriaeth dda o ddulliau effeithiol o gefnogi dysgwyr<br><br>Gwybodaeth am dechnolegau newydd i gefnogi addysgu a dysgu a phrofiad o'u defnyddio<br><br>Gwybodaeth am strategaethau effeithiol i reoli ymddygiad a phrofiad o ddefnyddio'r strategaethau hynny<br><br>Dealltwriaeth ynghylch prosesau a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant | |
| SGILIAU | Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol<br><br>Ymrwymiad i sicrhau fod sgiliau personol a sgiliau dysgwyr yn y defnydd o'r Gymraeg yn datblygu'n raddol<br><br>Y gallu i gyfathrebu, ar lafar ac yn ysgrifenedig, trwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>Ymarferwr trefnus, hyblyg ac arloesol iawn.<br><br>Y gallu i greu amgylchedd dysgu heriol ac effeithiol a meddu ar sgiliau effeithiol i reoli disgyblion<br><br>Y gallu i sefydlu perthnasoedd da a chydweithio ag aelodau eraill o staff, llywodraethwyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill | Y gallu i wella ansawdd bywyd yr ysgol ymhellach trwy gyfrwng gweithgareddau allgyrsiol.<br><br>Y gallu i arwain eraill yn y gweithle |

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| RHINWEDDAU PERSONOL | Y gallu i fod yn gydnerth o dan bwysau a pharhau i fod yn gadarnhaol a brwdfrydig<br><br>Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>Ymrwymiad i hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru<br><br>Cydweithredwr rhagorol sy'n gryf ei gymhelliant ac yn ymroddgar<br><br>Ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal a defnyddio amrywiaeth o strategaethau ac arferion i hybu cydraddoldeb yn y dosbarth | |
| GOFYNION ERAILL | Mae'r swydd hon wedi'i heithrio o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) a byddir yn gwirio pob ymgeisydd trwy broses drylwyr. Fel rhan o hyn, bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cynnal gwiriad manwl ac yn gwirio rhestri gwahardd (DBS). Mae apwyntiad i'r swydd hon yn ddibynnol ar 2 eirda ysgrifenedig addas<br><br>Deall ac arddangos parodrwydd i hyrwyddo polisi cyfleoedd cyfartal y Cyngor yn gadarnhaol | |

**Y Gymraeg yn Hanfodol**
Bydd yn rhaid i chi ddangos yn y cyfweliad eich bod yn gallu siarad Cymraeg i'r lefel sy'n ofynnol ar gyfer y rôl a hysbysebir. Gellid argymell, os nad ydych ar y lefel ofynnol, eich bod yn mynychu gwersi Cymraeg (a ariennir gan y cyngor) i gyrraedd y lefel briodol.

**Am ragor o wybodaeth am y swydd hon, neu i drefnu ymweliad â'r ysgol, cysylltwch â:** Sarah Oliver, Pennaeth, Ysgol Gymraeg Y Fenni, Heol Dewi Sant, Y Fenni, NP7 6HF Rhif ffôn: 01873 852388

**Petai angen rhagor o wybodaeth arnoch am y swydd hon, a fyddech gystal â chysylltu â:** Sarah Oliver: 01873 852388

**Dyddiad Cau: 12yh ar 22.11.2024**